Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn chwilio am berson trefnus, egnïol a brwdfrydig i fod yn

Cydlynydd Cynghrair Cymunedau Cymraeg
2 ddiwrnod yr wythnos tan fis Mehefin 27ain 2014
Cyflog o £20,000 y flwyddyn pro rata
Lleoliad yn hyblyg

Swydd dros dro yw hon gyda'r bwriad o sefydlu gwaith y Gynghrair er mwyn iddi allu gweithredu ohoni ei hun.

Byddwch yn cydweithio yn agos â Chadeirydd Cynghrair Cymunedau Cymraeg cynrychiolwyr presennol y Gynghrair ac aelodau potensial o'r Gynghrair ar draws Cymru gyda'r bwriad o hybu a chodi proffil y gynghrair ymysg grwpiau a chynghorau cymunedau a chynorthwyo gyda threfniadau'r Gynghrair.

**GOFYNION**

- Unigolyn brwdfrydig, gweithgar a threfnus.
- Ymrwymiad personol i'r frwydr dros y Gymraeg
- Profiad blaenorol, yn wirfoddol neu yn gyflogedig, o gydlynu gwaith dydd i ddydd a digwyddiadau gydag unigolion a grwpiau mewn cymunedau.
- Profiad o gydweithio gydag unigolion a grwpiau i reoli prosiectau.
- Profiad blaenorol, yn wirfoddol neu yn gyflogedig, o waith trefnu.
- Y gallu i gyfathrebu a chydweithio yn effeithiol gydag aelodau eraill o Gymdeithas yr Iaith a gydag aelodau'r Gynghrair.
- Parodrwydd i fynychu cyfarfodydd gyda'r nos yn achlysurol.
- Y gallu i weithio yn annibynnol
- Gwybodaeth gyffredinol am feysydd ymgyrchoedd Cymdeithas yr Iaith.
- Diddordeb byw mewn, a gwybodaeth eang, o faterion gwleidyddol yng Nghymru a Phrydain.
- Y gallu i gyfathrebu yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg ar lafar ac yn ysgrifenedig.

**CYFRIFOLDEBAU MANWL**

- Cadw mewn cyswllt rheolaidd gyda chynrychiolwyr pob cymuned sy'n aelodau o'r Gynghrair.
- Cadw cofnod o waith pob cymuned sydd yn aelod, adnabod ardaloedd a chymunedau y gallai ddod yn aelodau o'r Gynghrair a chofnodion o unrhyw drafodaethau ynglŷn ag ymuno â'r Gynghrair.
- Trefnu cyfarfod cyffredinol Cynghrair Cymuned Cymraeg ym mis Ionawr.
- Mynychu cyfarfodydd gyda'r nos o bryd i'w gilydd i gyflwyno gwaith y Gynghrair i ddarpar aelodau.
- Ar y cyd â phwyllgor gwaith y Gynghrair, trefnu cydlynu gwaith polisi ac ymgyrchoedd ar sail egwyddorion y Gynghrair.
- Llunio pecyn o syniadau i'w cyflwyno i aelodau ynghylch yr hyn y gallent eu cyflawni i gryfhau'r Gymraeg a'u cymuned.
- Trefnu gweithdai/digwyddiadau ar bynciau sydd o ddiddordeb i aelodau'r Cynghrair.
- Trefnu bod straeon am aelodau ar wefan y Gynghrair.
- Creu a sicrhau strwythur fydd yn golygu y bydd y Gynghrair yn gallu gweithio yn rhydd o unrhyw swyddog cyflogedig.

Mae lleoliad yn hyblyg ond byddai disgwyl i'r Cydlynydd allu teithio yn rhwydd ar draws Cymru pan fo angen. Mae gan Gymdeithas yr Iaith dair swyddfa (Caernarfon, Aberystwyth a Chaerdydd) a bydd holl adnoddau'r swyddfa honno ar gael i'r unigolyn. Ad-delir costau ffon a theithio ac unrhyw gostau rhesymol eraill.

Anfonwch eich llythyr cais erbyn **Dydd Gwener Tachwedd 15fed** i: Swyddfa Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Ystafell 5, Y Cambria, Aberystwyth SY23 2AZ neu trwy e-bost i post@cymdeithas.org